



DATGANIAD I'R WASG - PRESS RELEASE

DATHLIADAU DEWI SANT YNG NGHAERFYRDDIN DROS 30 O DDIGWYDDIADAU I GYMRYD LLE YN RHITHWIR AC AR LEIN YN YSTOD CHWEFROR A MAWRTH

Ni fydd cyfyngiadau Covid 19 yn atal pobl rhag gallu dathlu bywyd Nawdd Sant Cymru eleni .

Mae nifer fawr o sefydliadau a busnesau wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod pobl o bob oed yn gallu mwynhau ystod eang o weithgareddau diwylliannol yn ystod Chwefror a Mawrth. Bydd hyn yn caniatáu i bobl gofio a dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy Gaerfyrddin - ac yn wir unrhyw le yn y byd drwy'r rhyngwlad. Mae'r grŵp wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cael ei arwain a'i gadeirio gan Faer Caerfyrddin a Chynghorwr Tref Caerfyrddin a Sir Gaerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John.

Dywedodd y Cynghorydd John "Er gwaethaf heriau parhaol cyfyngiadau Covid, rwyf wrth fy modd bod rhaglen mor arwyddocaol ac amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau wedi'i baratoi gan gymaint o sefydliadau sydd yn dymuno cadw at draddodiad Caerfyrddin o ddathlu ein Nawdd Sant. Mae wedi cymryd tipyn o ymdrech gan lawer o bobl i greu'r rhaglen hon - fe fydd yna dros 30 o weithgareddau i bobl eu mwynhau - a dymunem ddiolch i'r nifer fawr o bobl a sefydliadau hynny sydd yn ymwneud a'r holl weithgareddau, a hefyd i'r rhai sydd wedi tynnu'r rhaglen o ddigwyddiadau at ei gilydd. Mae egni a brwdfrydedd pawb sy'n ynghlwm wedi bod yn rhyfeddol".

“Mae rhoi’r digwyddiadau hyn ar lein a defnyddio technoleg yn y modd hwn yn golygu y gall pobl dros y byd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda phobl Caerfyrddin”.

“Fe fydd cyfle arbennig i bawb i ymuno i ganu ein hanthem genedlaethol ganol dydd ar Ddydd Gŵyl Dewi, ac fe fydd hyn hefyd yn gyfle i ddiolch i’r holl weithwyr allweddol sydd wedi cadw ein cymunedau - ac yn wir ein gwlad yn gyfan - i fynd drwy gydol y pandemig hwn. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at hynny”.

“Gobeithio y bydd pethau yn well yr amser hwn y flwyddyn nesaf a gallwn unwaith eto gynnal yr orymdaith draddodiadol Dydd Gŵyl Dewi drwy ganol y dref a chynnal yr adloniant stryd sydd yn draddodiadol yn ein tref”.

Mae’r rhaglen lawn o ddigwyddiadau ynghlwm.

Alun J Harries

Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council

01267 235199

18^{fed} o Chwefror 2021